

# CYFRIFEG, BUSNES A'R GYFRAITH

Arian sy'n datod pob clo. Os ydych yn gyflym gyda rhifau neu os oes gennych ddawn entrepreneuraidd, yna mae Cyfrifeg neu Fusnes yn ddelfrydol i chi.

Neu efallai eich bod yn teimlo'n angerddol am gynnal trefn, diogelu rhyddid a hawliau a'ch bod yn dda am dawelu anghydfodau? Mae yna yrfa i chi yn y Gyfraith! Mae'r sector hwn yn amrywiol tu hwnt mewn amgylchedd byrlymus a chystadleuol. Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyfaoedd y gallech chi eu dilyn mewn Cyfrifeg, Busnes a'r Gyfraith:

## Cyfrifeg

Mae cyfrifwyr yn hynod drefnus a gofalus gyda rhifau, yn cadw cofnod ar arian cwmnïau ac unigolion, llif arian a pherfformiad. Mae rolau yn dechrau ar lefel mynediad fel technegydd, hyd at gyfrifydd cymwys.

## Y Sector Bancio /Ymgynghorydd Ariannol

Fel arfer yn gwasanaethu cwsmeriaid ond mae'r sbectrwm yn eang, yn ymdrin â rheoli arian rhyngwladol a domestig, benthyciadau, cyfnewidfa dramor a llawer mwy. Mae ymgynghorwyr ariannol yn datrys problemau ac yn meddwl yn strategol, gan helpu i fanteisio'n llawn ar arian pobl, faint bynnag sydd ganddynt. Gallwch ddechrau fel ariannwr banc ac yna datblygu mewn amryw o ffyrdd gwahanol; mae'r cyfleoedd i uwchsgilio yn ddiddiwedd.

## Swyddog Yswiriant

Mae yswiriant fel rheol yn ofyniad cyfreithiol er mwyn gyrru car, cynnal morgais etc. Mae'r diwydiant yswiriant ar gyfer y rheiny sy'n hoffi darparu datrysiadau, darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol ac

mae'n cyffwrdd agweddau ar y gyfraith a deddfwriaeth.

## Ymgynghorydd Cyfreithiol/Y Gyfraith

Gall y gyfraith fod yn flinedig iawn ond mae'n werth chweil. Mae dull gweithredu pwylog, diwyd, sylw at fanylion a rhoi buddion eich cleient wrth eich calon yn allweddol i lwyddo. Mae'r rolau yn amrywio o swyddi ysgrifenyddol i gyfreithwyr cymwys mewn arbenigedd megis eiddo neu anafiadau.

## Gwerthu a Marchnata

Gyfaoedd byrlymus, cystadleuol ar sail targedau yn dechrau gydag eisiau neu angen eich cwsmer mewn cof. Mae'r rolau hyn fel rheol yn golygu gweithio dan bwysau ond gall gwobrau fod yn uchel.

## Entrepreneur

Meddwl am syniadau busnes newydd byth a beunydd? Byddwch yr Alan Sugar neu'r Richard Branson nesaf! Mae bron i 2/3 o entrepreneuriaid yn dweud nad oedd ganddynt brofiad o reoli busnes cyn neidio i'r gwyll! Mae gweithio'n galed, gwytnwch a chrafter busnes yn allweddol i entrepreneuriaeth lwyddiannus.


AR GYFARTALED  
MAE GWEITHWYR  
PROFFESIYNOL YN Y  
GYFRAITH YN ENNILL

**£63.8K**  
Y FLWYDDYN

AR GYFARTALED  
MAE GWEITHWYR  
BUSNES A RHEOLI  
PROSIECTAU  
ARIANNOL YN  
ENNILL

**£51,480**

(ffynhonnell EMSI)



CYFANSWM  
Y SWYDDI  
YN Y  
DIWYDIANT  
HWN

**514,246**  
CYMRU



## Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	BC	C	DC	T
Cyfrifeg AAT	2			✓	
Cyfrifeg Uwch AAT	3			✓	
Busnes	2		✓		✓
Busnes	3	✓	✓	✓	✓
Astudiaethau Galwedigaethol - Busnes, Cwasanaeth Cwsmer a TGCh	1				✓

## Dolenni Defnyddiol

[www.financialskillspartnership.org.uk](http://www.financialskillspartnership.org.uk) Y Cyngor Gwasanaethau Ariannol  
[www.icaew.com](http://www.icaew.com) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) wefan Gyrfa Cymru

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [Helo@colegwent.ac.uk](mailto:Helo@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

